**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 11eg Tachwedd 2025 am 6.30 yn Neuadd .Felinfach i gydfynd â'r digwyddiad Llunio Lle Ceredigion.**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd) , Lynford Thomas, Dan Evans, Wendy Lloyd Lewis, Euros Davies, Gerwyn Owen, Melinda Williams, Glyn Davies

Y Cyng. Sir Ceris Jones.

1. **YMDDIHEURIADAU –** Y Cyng. Alan Henson, Hywel Ifans, Lyn Williams

2. PERSONOL – dim materion personol

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL –** dim i'w datgelu

4. **CADARNHAU COFNODION 14/10/25**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng.Glyn Davies a'u derbyniwyd yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**
   **11.Ysgolion Dihewyd a Felinfach.** Anfonwyd llythyr ar ran y Cyngor parthed dyfodol y ddwy ysgol ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb, Paratowyd cwestiynau ar gyfer y digwyddiad Llunio Lle Ceredigion er mwyn i'r cyhoedd gael rhoi eu barn/syniadau am ddyfodol yr ysgol. Mi fydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir yn y flwyddyn newydd.
   **14e, f, g. Golau Stryd Banc Villa / Capel Cribyn/ Dihewyd.** Derbyniwyd ateb gan Simon Bray o'r Cyngor Sir yn nodi bod golau Bank Villa wedi ei dynnu ar gais y perchnegoion sydd â'r hawl i wneud hyn. Yn dilyn sgwrs a Simon Bray dyma'r ateb a ddaeth yn ôl. Mae'r opsiwn i roi golau solar ar dir yr Eglwys. **Penderfynwyd** gofyn am gostau. Tynwyd y golau oddiar y Long Room, Capel Cribyn oherwydd ei fod yn cael ei ddifrodi'n aml gan loriau ac nid oes unrhyw fwriad ail-osod golau yn y fan hon. Nid oes newid yn y sefyllfa yn Dihewyd.
   14h. **Hewl Troedyrhiw**. Bydd angen peiriannydd i ymchwilio a'r gwaith yn cael ei wneud ar sail blaenoriaeth.
   14 i. **Arwyddion 20mya Felinfach.** Ymateb gan Gan Bwyll: The legislation states that there should not be any repeater signs within a 20mph speed limit, street lighting now means 20mph.

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**
   Nododd y Cyng. Ceris Jones ei bod wedi cysylltu ag Adran y Priffyrdd am y broblem ddŵr yn ardal yr ysgol newydd. Cadarnhaodd bod nifer o faterion eraill wedi eu codi a'u cofnodi ar Clic.

7. **ADRODDIAD YR HEDDLU –** Yn sgil y newid yn nhrefn y cyfarfod heno nid oedd PC Liz Jenkins yn bresennol.

8. **CYLLID**

   i. Tal y Clerc mis Hydref £228.73
   ii. Lloyds Banc Ffioedd : **10/09/25 – 09/10//25 £4.25**
   iii. Lloyds Banc Ffioedd Cyfrif y Cadeirydd **10/09/25 – 09/10/25** £**4.25**
   iv. RBL Poppy Appeal £40
   v. Rhestrwyd y newid yn nhrafodion Banc Lloyds ar gyfer y flwyddyn newydd.

9. **AROSFANNU BYSUS**

Derbyniwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn gofyn am gadarnhad o berchnogaeth ein harosfannau bysus. Nodwyd y rhai perthnasol a bydd y Clerc yn ymateb cyn y 24ain o Dachwedd.

10. **CYNLLUNIO –** dim i'w drafod

11. **GOHEBIAETH** – dim gohebiaeth

12. **UNRHYW FATER ARALL**

   a. Cysylltod Melinda yn ystod y mis yn eisiau cofnodi bod y llinellau ar y ffordd o Bont Creuddyn i Fryngole yn wael. Derbynwiyd ymateb sef: *bydd angen peiriannydd i ymchwilio a'r gwaith yn cael ei wneud ar sail blaenoriaeth.*
   b. Lynford a Glyn wedi cytuno i fynd i'r cyfarfod yn Penmorfa ar y 27ain o Dachwedd
   c. Cadarnhaodd y Cyng. Lynford Thomas bod y bocs newydd wedi ei osod ar y Neuadd i ddal y deffib. newydd a bod y gwaith trydanol wedi ei wneud am ddim gan Tudur Jones. **Penderfynwyd** ysgrifennu gair o ddiolch at Tudur.
   d. Codwyd nifer o broblemau'm ymwneud â llifogydd sydd angen sylw:
      i. Dolgerdd a Dwynant, Cribyn (Y Cyng. Euros Davies
      ii. Arosfan Bws Ystrad (Y Cyng. Glyn Davies)
      iii. Yr hewl gerl Bryniau, Dihewyd (Y Cyng. Gerwyn Davies)

   **Penderfynwyd** cysylltu â'r Cyngor Sir yn nodi'r problemau uchod.

13. **DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

Rhagfyr 9fed yn Festri Troedyrhiw